

ATODLEN 2

Rheoliad 3(2)

RHAN I

RHEOLAU SYLFAENOL I BENDERFYNU MUDIAD PLWM A CHADMIWM

Yr hylif prawf (“efelychydd”)

1. 4% (v/v) asid asetig, mewn toddiant o baratowyd yn ffres.

Amodau'r prawf

- 2.—(1) cyflawni'r prawf ar dymheredd o $22 \pm 2^\circ$ am gyfnod o 24 ± 0.5 awr.

(2) Pan benderfynir mudiad plwm, rhodder gorchudd ar y sampl mewn modd priodol i'w ddiogelu a gadawer ef yn agored i'r amodau goleuo arferol sydd mewn labordy.

(3) Pan benderfynir mudiad cadmiwm neu blwm a chadmiwm, rhodder gorchudd ar y sampl i sicrhau bod yr arwyneb y mae profion i'w cynnal arno yn cael ei gadw mewn tywyllwch llwyr.

Llenwi

- 3.—(1) Samplau y gellir eu llenwi

- (a) Llenwer yr eitem â 4% (v/v) o doddiant asid asetig at lefel nad yw'n uwch na 1mm o'r pwynt gorlifo; mesurir y pellter o ymyl uchaf y sampl.
- (b) Dylid llenwi samplau gydag ymyl gwastad neu ymyl sy'n goleddfu fel nad yw'r pellter rhwng arwyneb yr hylif a'r pwynt gorlifo yn ddim mwy na 6mm wrth fesur ar hyd yr ymyl sy'n goleddfu.

- (2) Samplau na ellir eu llenwi

Yn gyntaf, gorchuddir arwyneb y sampl na fwriedir iddo ddod i gyffyrddiad â bwydydd â haenen amddiffynnol sy'n gallu gwrthsefyll gweithrediad y 4% (v/v) toddiant asid asetig. Yna boddir y sampl mewn cynhwysydd sy'n cynnwys swm gwybyddus o doddiant asid asetig yn y fath fodd y bydd yr arwyneb y bwriedir iddo ddod i gyffyrddiad â'r bwydydd yn cael ei orchuddio'n llwyr gan yr hylif prawf.

Penderfynu arwynebedd yr arwyneb

4. Mae arwynebedd arwyneb yr eitemau yng nghategori 1 yn hafal i arwynebedd arwyneb y menisgws a ffurfir gan yr arwyneb hylif rhydd a geir wrth gydymffurfio â'r gofynion llenwi a osodir ym mharagraff 3.

RHAN 2

DULLIAU DADANSODDI AR GYFER PENDERFYNU MUDIAD PLWM A CHADMIWM

Amcan a maes cymhwyso

1. Mae'r dull yn caniatáu i'r mudiad penodedig o blwm a/neu gadmiwm gael ei benderfynu.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Egwyddor

2. Penderfynir y mudiad penodedig o blwm a/neu gadmiwm drwy ddull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn sy'n bodloni perfformiad meini prawf pwynt 4.

Adweithyddion

3.—(1) Rhaid bod ansawdd dadansoddol i bob adweithydd, oni phennir fel arall.

(2) Os cyfeirir at ddŵr, bydd bob amser yn golygu dŵr a ddistyllwyd neu ddŵr o ansawdd cyfatebol.

(3) 4 % (v/v) asid asetig, mewn toddiant dyfrllyd; ychwaneger 40 ml o asid asetig ar ffurf rhew at ddŵr i wneud hyd at 1 000 ml.

(4) Toddiannau stoc: paratoer toddiannau stoc sy'n cynnwys 1 000 mg/litr o blwm ac o leiaf 500 mg/litr o gadmiwm yn eu trefn mewn 4 % o doddiant asid asetig, fel y cyfeirir ato yn is-baragraff (3).

Meini prawf perfformiad o'r dull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn

4.—(1) Rhaid i'r terfyn canfod ar gyfer plwm a chadmiwm fod yn hafal i neu'n is na—

- 0,1 mg/litr ar gyfer plwm,
- 0,01 mg/litr ar gyfer cadmiwm.

Diffinnir y terfyn canfod fel y crynodiad o'r elfen yn y 4 % toddiant asid asetig, fel y cyfeirir ato ym mhwynt 3.1, sy'n rhoi signal sy'n hafal i ddwywaith sŵn cefndir yr offeryn.

(2) Rhaid i'r terfyn meintioliad ar gyfer plwm a chadmiwm fod yn hafal i neu'n is na—

- (a) 0,2 mg/litr ar gyfer plwm,
- (b) 0,02 mg/litr ar gyfer cadmiwm.

(3) Adennill: rhaid i'r hyn a adenillir o blwm a chadmiwm a ychwanegwyd at y 4 % o doddiant asid asetig, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3(3), ddod o fewn 80-120 % o'r swm a ychwanegwyd.

(4) Penodolrwydd: rhaid i'r dull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn a gaiff ei ddefnyddio fod yn rhydd o ymyriannau matrices ac ymyriannau rhithiol.

Dull

5.—(1) Paratoi'r sampl—

- (a) Rhaid i'r sampl fod yn lân ac yn rhydd o sail neu fater arall sy'n debygol o effeithio ar y prawf;
- (b) Golcher y sampl mewn toddiant sy'n cynnwys sebon hylif yr aelwyd ar dymheredd o tua 40 °C. Rinsier y sampl yn gyntaf mewn dŵr tap ac yna mewn dŵr wedi'i ddistyllu neu ddŵr o ansawdd cyfatebol. Draenier y sampl a'i sychu i osgoi unrhyw staen. Ni ddylid trafod yr arwyneb sydd i'w brofi ar ôl iddo gael ei lanhau.

(2) Penderfynu plwm a/neu gadmiwm—

- (a) cynhelir prawf ar y sampl a gafodd ei baratoi yn y modd hwn o dan yr amodau a osodir yn Atodlen I;
- (b) cyn cymryd y toddiant prawf ar gyfer penderfynu plwm a/neu gadmiwm, homogeneiddier cynnwys y sampl drwy ddull priodol, sy'n osgoi unrhyw gollu toddiant neu'n osgoi sgrafellu'r arwyneb sydd i gael ei brofi;
- (c) cynhalier prawf gwag ar yr adweithydd a ddefnyddir ar gyfer pob cyfres o benderfyniadau;
- (ch) cynhalier y penderfyniadau ar gyfer plwm a/neu gadmiwm o dan amodau priodol.